



I'w gyhoeddi 12 Gorffennaf 2018

Llywodraeth Cymru'n cynnal gweithdy 'Taith Ddysgu' Arloesi gyda chyllid yr Undeb Ewropeaidd.

Yn ystod yr wythnos hon, cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithdy (Gorffennaf 10 a 11, 2018), i rannu blaengarwch ac arferion gorau gweithgynhyrchu uwch â phartneriaid Ewropeaidd fel rhan o'r fenter €937,661 a gyllidir gan yr UE, [MANUMIX](#).

Mae'r prosiect pedair blynedd o hyd hwn yn cynnwys consortiwm o bedwar rhanbarth Ewropeaidd – Gwlad y Basg, Lithwania, Fimpiedmonte a Chymru. Mae'n hybu arfer dda drwy ymgymryd â, rhannu ac arddangos polisiau arloesol, wrth wella a chryfhau systemau gwerthuso presennol. Cymru yw'r pedwerydd rhanbarth yn y consortiwm hwn i gynnal y gweithdy 'taith ddysgu' a fynychwyd gan 20 cynadleddwr o Ewrop ynghynt yn yr wythnos.

Gan wneud sylw ar lwyddiant y gweithdy, meddai Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol:

“Rydym wedi ymrwymo i adeiladu a chynnal ein partneriaethau Ewropeaidd ac mae'r gweithdy taith ddysgu hon yn rhoi'r llwyfan perffaith i arddangos Cymru fel economi sy'n edrych am allan, gyda'r arbenigedd dechnolegol i ddod yn ganolbwynt arloesi bydeang.”

Roedd y gweithdy hefyd yn cynnwys ymweliad safle â dau arloeswr o Gymru, i adolygu effaith offerynnau a pholisiau. Cynhaliwyd yr ymweliad safle cyntaf yn [Wafer Fab Casnewydd](#), clwstwr lled-ddargludyddion cyfansawdd cyntaf y byd. Meddai Sam Evans, Cyfarwyddwr Materion Ariannol Wafer Fab Casnewydd:

“Lled-ddargludyddion cyfansawdd yw'r dechnoleg ddiffiniol ar gyfer yr 21ain ganrif, ac rydym ni'n croesawu'r cyfle i rannu ein profiadau dysgu mewn gweithgynhyrchu uwch gyda'n cydweithwyr Ewropeaidd fel rhan o fenter Manumix drwy gyfrwng ein partneriaeth â Llywodraeth Cymru.”

Digwyddodd yr ail ymweliad yn [Medicentre Caerdydd](#), canolfan ddeor busnes gyda Phrifysgol Caerdydd a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Meddai'r Athro Ian Weeks, Deon Arloesi Clinigol yn Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd:

“Bu modd i gynadleddwyr weld â'u llygaid eu hun y rôl hanfodol sydd gan Medicentre Caerdydd mewn dod â llywodraeth, academia, y GIG, a busnes at ei gilydd i ddatblygu gwelliannau yfory mewn gofal iechyd heddiw. Wrth i ni ddathlu pen-blwydd y GIG yn 70,



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

bydd gan bartneriaethau cydweithredol fel ein un ni y potensial i newid popeth wrth wella gofal iechyd a darparu cyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd am genedlaethau i ddod.”

Am ragor o wybodaeth am ‘Daith Ddysgu’ Llywodraeth Cymru a phrosiect MANUMIX, ewch i www.interregeurope.eu/manumix/.